**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**ADRAN 23 O DDEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984**

# CROESFAN GYFOCHROG / BEICWYR ARFAETHEDIG AR Y B5125 THE HIGHWAY, PENARLÂG

Rhoddir **RHYBUDD** drwy hyn bod Cyngor Sir y Fflint, wrth arfer ei bwerau o dan Adran 23 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig:-

a) Gosod Croesfan Gyfochrog / Beicwyr yn y lleoliad a ddisgrifir yn Atodlen y Rhybudd hwn.

**Rheswm dros y Cynnig:** Mae Cyngor Sir y Fflint wedi nodi Y B5125 The Highway, Penarlâg fel lleoliad addas i osod cyfleuster Croesfan Gyfochrog / Beicwyr. Mae Cyngor Sir y Fflint wedi llwyddo i gael cyllid i weithredu cyfleuster croesfan barhaol yn y lleoliad hwn, fel rhan o Gynllun Teithio Llesol ehangach, a fydd yn annog a chynorthwyo siwrneiau cynaliadwy i mewn ac allan o Ysgol Uwchradd Penarlâg. Bydd hefyd yn gwasanaethu'r gymuned ehangach trwy ddarparu man croesi diogel y tu allan i oriau ysgol.

Bydd y gwaharddiad arferol ar gerbydau yn parcio, aros, llwytho a dadlwytho ar y briffordd, o fewn yr ardaloedd sydd wedi eu marcio â llinellau igam-ogam ar ddwy ochr y groesfan, yn weithredol.

Gellir archwilio copi o'r Rhybudd hwn a chynlluniau sy'n dangos y ffordd y mae'r cynnig yn effeithio arni, yn ystod oriau agor arferol yng Nghanolfan Gysylltu Bwcle, Llyfrgell Bwcle, The Precinct, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF.Bydd y dogfennau hefyd ar gael ar-lein ar ein gwefan www.siryfflint.gov.uk > Preswylwyr > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoleiddio Traffig neu fe allwch wneud cais am gopi o'r dogfennau drwy anfon e-bost at Streetscene@flintshire.gov.uk neu drwy ffonio 01352 701234.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r cynnig arfaethedig, yn ogystal â'r sail dros wrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod erbyn dydd Gwener, 21 Chwefror 2025 neu drwy anfon e-bost at transportstrategyconsultation@flintshire.gov.uk gan ddyfynnu cyfeirnod SS/TRO/JB/THH/Crossing

## ATODLEN


### Gosod Croesfan Gyfochrog / Beicwyr Newydd.

**B5125 The Highway, Penarlâg** – ger cyffordd Upper Aston Hall Lane.

Dyddiedig dydd Gwener, 31 Ionawr 2025



Katie Wilby,
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NR




CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation).
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryda Thafnidiaeth).

County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6NF

Streetscene

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

DRAWN BY: NGW

CHECKED BY: RN

SCALE: 1: NTS @ A3

NAT. GRID REF: 330533 366237

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| AMENDMENTS: | DATE |
| --- | --- |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

B5125 The Hwy, Penarlag
B5125 The Highway, Hawarden

Croesfan Gyfochrog / Beic Arfaethedig
Proposed Parallel / Cycle Crossing
(Sheet 1 of 1)

DRAWING NUMBER: HT/25/THH | 101 | P1